

### Hematoma Isgorionig (SCH)

#### Beth yw hyn?

Mae hematoma isgorionig neu glot isgorionig yn debyg i glot gwaed sy'n ffurfio rhwng wal y groth a'r bag o ddŵr neu'n ddiweddarach yn ystod beichiogrwydd, o dan y brych (yr organ sy'n maethu'r babi). Mae'n digwydd pan fydd rhywfaint o waed yn gollwng o'r brych ac yn mynd yn sownd rhyngddo a'r groth.

#### Symptomau a diagnosis

Mae gwaedu o'r wain yn symptom cyffredin yn y tri mis cyntaf. SCH yw'r achos mwyaf cyffredin o hyn. Gall y gwaedu amrywio o smotiau ysgafn i waedu trymach, a gallai fod yn goch, yn binc, neu'n frown o ran lliw.

Gall rhai merched brofi crampiau ysgafn i gymedrol, yn debyg i grampiau mislif. Os bydd gennych unrhyw waedu yn gynnar yn ystod eich beichiogrwydd, byddwch yn cael cynnig sgan uwchsain a fydd yn datgelu'r SCH os yw'n bresennol. Weithiau, ni ellir gweld SCH ar sgan. Mewn llawer o achosion, mae hematoma isgorionig yn cael ei ganfod mewn sgan uwchsain arferol heb unrhyw symptomau amlwg.

#### Beth sy'n ei achosi?

Nid yw'r achos yn glir. Credir mai gwahanu rhannol y pilenni o amgylch y ffetws i ffwrdd o wal y groth yw'r achos.

Mae ffactorau risg ar gyfer SCH yn cynnwys colli mwy nag un beichiogrwydd, annormaleddau strwythurol y groth, haint pelfig, a chleifion sydd wedi cael llawer o blant blaenorol.

#### A ddylwn fod yn bryderus?

Er nad yw'n cael ei ystyried yn normal, nid yw SCH yn ganfyddiad anarferol, ac nid yw'n golygu y byddwch yn colli eich beichiogrwydd.

Weithiau, gall fod yn gysylltiedig â risg cynyddol o gamesgoriad. Mae hyn yn fwy tebygol gyda'r canlynol:

- Mae'r SCH yn fwy
- Mae'r fam yn hŷn
- Diagnosis yn gynharach mewn beichiogrwydd

- Mae lleoliad y gwaedu y tu ôl i'r brych ei hun yn hytrach na'r tu ôl i'r pilenni (dim ond yn ddiweddarach yn ystod beichiogrwydd y mae hyn yn berthnasol ar ôl i'r brych ffurfio)

Os bydd y beichiogrwydd yn parhau, mae risg cynyddol y bydd rhai cymhlethdodau eraill, gan gynnwys:

- esgor cynnar neu'r dyfroedd yn torri'n gynnar o amgylch y babi
- Y brych yn gwaedu ac yn gwahanu oddi wrth wal y groth yn ddiweddarach yn ystod beichiogrwydd, a elwir hefyd yn doriad brych
- Problemau sy'n gysylltiedig â phwysedd gwaed yn ddiweddarach yn ystod y beichiogrwydd

Mae'r dystiolaeth ar gyfer y cymhlethdodau hyn yn gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf o feichiogrwyddau yr effeithir arnynt gan SCH yn datblygu yn ôl yr arfer, mae'r SCH yn diflannu ar ei ben ei hun, ac mae'r beichiogrwydd yn arwain at eni babi iach heb unrhyw gymhlethdodau ychwanegol.

### **Pa driniaeth sydd ei hangen arnaf?**

Bydd llawer o achosion o hematomas isgorionig yn datrys ei hun yn araf heb driniaeth, yn union fel mae clais o dan y croen yn diflannu. Pan fydd hynny'n digwydd, efallai y bydd y fam yn profi gollyngiad coch tywyll neu frown o'r wain. Nid oes dystiolaeth o blaid gorffwys yn y gwely.

Efallai y byddwch yn cael cynnig pesariau progesteron i'w mewnosod yn y wain, er nad yw manteision hyn ar gyfer SCH wedi'u profi. Fodd bynnag, os ydych wedi cael camsegoriad yn y gorffennol, ac mae gennych unrhyw waedu yn gynnar yn eich beichiogrwydd, gall pesariau progesteron helpu i wella canlyniad y beichiogrwydd a byddant yn cael eu cynnig. Yn gyffredin, mae sgil effeithiau progesteron yn cynnwys: poen/teimlad anghyfforddus yn yr abdomen, poen yn y fron, rhwymedd a blinder. Mae sgil effeithiau anghyffredin yn cynnwys: brech/cosi cyffredinol, cur pen, pendro, dolur rhydd, chwydu, mwy o wynt, poen yn y cymalau, chwysu nos, teimlo'n oer, cosi yn y man lle rhoddir y progesteron ac anymataliaeth.

Os ydych wedi cael unrhyw waedu ar ôl 12 wythnos o feichiogrwydd ac yn 'rhesws negatif', byddwch yn cael cynnig pigiad o imiwnoglobwlin gwrth-D, ac mae'r sgil effeithiau anghyffredin yn cynnwys: oerfel; twymyn; cur pen; blinder; adweithiau i'r croen. Mae'r sgil effeithiau anghyffredin iawn yn cynnwys: poen yn y cymalau; anhawster anadlu; pwysedd gwaed isel; teimlo'n sâl; cyfradd curiad y galon yn cynyddu a chwydu.

Yn aml, rheolaeth geidwadol yn unig, ynghyd â monitro a sgan uwchsain dilynol, yw'r cyfan a argymhellir.

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /  
This document is available in English**